

## Nodyn y Golygydd

Croeso i bedwerydd rhifyn **Ieithydd Bangor**, cylchgrawn pob deufis i bawb sydd â diddordeb mewn ieithyddiaeth a'r iaith Saesneg. Ym mhob rhifyn byddwn yn trafod ac yn archwilio nifer o agweddau ar ieithyddiaeth a'r iaith Saesneg, yn edrych ar yr hyn sy'n digwydd o'n cwmpas o fewn yr adran ac yn eich diweddarau am faterion eraill o ddiddordeb. Byddwn hefyd yn cynnwys adolygiadau o'r cyfryngau, posau a chroeseiriau.

Yn y rhifyn hwn mae gennym erthygl gan ddau lasfyfyrwr sy'n adrodd wrthym am eu profiadau yn y flwyddyn gyntaf yma ym Mangor. Ymhellach mae gennym adroddiad am y Gwobrau Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr a Gwobrau'r Cymdeithasau. Byddwn hefyd yn eich cyflwyno i'r pwyllgor newydd ar gyfer y flwyddyn i ddod, yn rhoi amlinelliad o'r hyn sy'n mynd i ddigwydd os byddwch yn graddio eleni ac rydym hefyd yn cynnwys ychydig ddarnau o ieithyddiaeth ddychanol a digrif.

Gobeithio y gwnewch chi fwynhau'r rhifyn hwn a'ch bod yn canfod y cynnwys yn ddefnyddiol. Os oes gennych unrhyw sylwadau, ceisiadau, beirniadaeth neu gynigion o gymorth, yna mae croeso i chi anfon e-bost at Kathryn Barlow (y golygydd) ar [linguistics@undeb.bangor.ac.uk](mailto:linguistics@undeb.bangor.ac.uk).

Kathryn Barlow

## Blwyddyn Gyntaf Roseanne

Cyn i mi edrych ar Fangor nid oeddwn mewn gwirionedd eisiau mynd i'r brifysgol – nid oeddwn yn teimlo unrhyw frwdfrydedd dros fynd. Yna fe welais yr hyn oedd yn cael ei gynig a dewis astudio Iaith Saesneg a

Llên Saesneg.

Rhoddodd y llu o weithgareddau cymdeithasol yn ystod yr Wythnos Groeso gyfle i ni fyfyrwyr newydd gwrdd a chymdeithasu gyda'n gi-lydd cyn i'r cwrs ddechrau a rhoddodd y cyfle i ni gwrdd â staff mewn cyd-destun anffurfiol. Fe brofodd yn fodd o gael ein cyflwyno i Gymdeithas Ieithyddiaeth Bangor gan fod llawer o arweinwyr cyfoed yr adran yn rhan o'r gymdeithas.

Ar ddechrau'r flwyddyn rhoddwyd cyfle i fyfyrwyr newydd fod yn rhan o'r pwyllgor ac fe neidiais ar y cyfle i fod yn Rheolwr y Llyfrgell (rwy'n dipyn o anorac pan ddaw at lyfrau ac roedd swydd eiddo enw



o'r fath yn ormod i mi) ac er fy mod i'n ymwneud gyda phwyllgorau a chymdeithasau eraill rwy'n teimlo cysylltiad cryfach gyda Chymdeithas Ieithyddiaeth Bangor, efallai oherwydd ei bod, fel cymdeithas academaidd, yn berthnasol i'm cwrs.

Pan ddysgais mwy am yr hyn oedd gan yr Adran Ieithyddiaeth i'w chynnig i mi roedd hynny o ddiddordeb mawr i mi ac yn dilyn wythnos o ddarlithiau roeddwn yn teimlo'n gryf y byddai'n well gennyf ddilyn cwrs gradd oedd wedi'i seilio'n gyfan gwbl o fewn yr ysgol. Penderfynais ollwng Llên Saesneg er mwyn astudio Ieithyddiaeth ac Iaith Saesneg ac mae'n benderfyniad nad wyf yn ei ddifaru o gwbl.

Mae'r flwyddyn gyntaf wedi bod yn gryn her ar brydiau ond rwyf wir wedi'i fwynhau ac yn edrych ymlaen at flwyddyn nesaf pan fyddaf yn arweinydd cyfoed ac yn cymryd rôl fwy gweithredol yn y Gymdeithas Ieithyddiaeth fel Cyd Is-Lywydd a Rheolwr y Llyfrgell.

Roseanne Orr

## Moliant i amrywiaeth ieithyddol: Profiad Person Uniaith

Mae wedi bod yn dair blynedd ers i mi gamu gyntaf i Gymru (wel, ce-fais wyliau yma rai blynyddoedd ynghynt... ond rydym yn canol-bwyntio ar fywyd coleg a gwaith gradd... ond gwyliau da cofiwch... ddrwg gen i, nôl at y pwynt) a gal-laf ddweud fod y profiad wedi bod yn un gwahanol iawn i'r hyn rydw i wedi arfer ag ef nôl yng ngogledd ddwyrain Lloegr; rhan draddodia-dol uniaith o'r byd.

Rwy'n credu fod byw ym Mangor wedi rhoi mwy na blas i mi o'r hyn ydy cymuned ddwyieithog. Er fy mod yn ymwybodol o'r Gymraeg yn flaenorol, nid oeddwn wedi cael unrhyw brofiad ohoni, nid oeddwn wedi byw o'i chwmpas ac nid oedd gen i unrhyw gysylltiad â hi. Ac fel y soniais, mae dod o ran uniaith o'r byd yn gallu arwain rhywun i fod â meddwl cul am y byd rydym yn byw ynddi, cyn belled â bod ieithoedd a siaradwyr ieithoedd eraill yn y cwestiwn. Mae'n debyg na chafodd hynny ei gynorthwyo gan ddysgu Ffrangeg yn ystod fy nghyfnod yn yr ysgol gyfun a'r chweched dos-barth, a deud y gwir efallai y gal-lai fod wedi bod yn rhwystr. Fel y gwyddoch, nid yw Ffrangeg yn iaith leiafrifol drwy unrhyw ddiffiniad, ac yn hynny o beth gall fod yn hawdd i chi gael eich cyflyru i feddwl mai Ffrangeg a'r ieithoedd eraill bydeang a ddysgir yw'r unig rai sydd o bwys. Rwy'n falch o ddweud nad oeddwn erioed o'r farn honno.

Wedi symud i Fangor dechreuais ddod i gysylltiad ag atyniadau ffansi fel arwyddion, poster, bwydlenni, pob mathau o bethau a deud y gwir, yn ddwyieithog. Rwy'n cyfeirio atyn nhw fel atyniadau ffansi oherwydd y buasent yn olygfa brin yn ôl yn y byd uniaith. Rydych yn gweld ambell i arwydd amlieithog ar gyfer twristiaid mae'n wir, ond does dim o'r un teimlad i hynny. A dweud y

gwir rwy'n cofio'r tro cyntaf i mi ddechwyd i Durham yn dilyn fy ychydig fisoedd cyntaf yn y brifysgol a pha mor ddieithr oedd hi wedi mynd i weld arwyddion uniaith. Yn amlwg roedd y cwpwl o fisoedd cyntaf yna ym Mangor wedi cael cryn effaith arnaf!

Er fy mod i'n euog o beidio â dysgu Cymraeg o ddifrif, mae byw ym Mangor wedi caniatáu i mi werth-fawrogi nid yn unig y Gymraeg, ond llawer o ieithoedd lleiafrifol eraill. Mae hynny wedi cael ei hyrwyddo i raddau gan fodiwlau rwyf wedi bod yn eu hastudio fel rhan o'm cwrs gradd mewn Ieithyddiaeth, ond mae byw mewn cymuned ddwyieithog wedi ategu'r hyn rwyf wedi'i ddysgu gan ddarlithwyr ac aelodau staff ym Mangor. A phan eich bod yn ychwanegu pethau fel y Ganolfan Ddwyieithrwydd ac ati... mae'n mynd yn eithaf anodd peidio â chofleidio'r iaith.

I gloi, mae Bangor wedi rhoi mwy i mi na gradd mewn Ieithyddiaeth. Mae wedi rhoi gwerthfawrogiad real i mi o'r byd rydym yn byw ynddo a bod gan bob iaith ei lle yn y byd. Diolch. Wedi wedi!

#SupportingLanguages

#PromotingLinguistics

Callum Robson

### Blwyddyn Gyntaf Jenny

Dywedodd rhywun wrthyf unwaith bod dilyn gradd gyfun fel dilyn gradd a hanner ar yr un pryd. Ar ôl blwyddyn o astudio Astudiaethau Creadigol ac Iaith Saesneg, mae'n rhaid i mi ddweud fy mod i'n cy-tuno gyda hynny.

Mae yna lot fawr o ruthro o gwm-pas am fod dyddiadau terfyn ar gyfer cyflwyno gwaith yn cyd-daro, yn arbennig tua diwedd y flwyddyn pan fo popeth yn digwydd ar yr un pryd. Ond mae'r gwrthdaro amser wedi bod yn digwydd ers y diwrnod

cyntaf.

Yn ystod Wythnos y Glas roedd gen i ddigwyddiadau oedd wedi'u paratoi gan y ddwy adran yn cael eu cynnal ar yr un diwrnod ac ar yr un pryd. Trwy dderbyn cyngor i fynd i'r cyfarfodydd gorfodol ar gyfer un pwnc a mynychu cyfarfodydd yr adran arall os yn bosib, llwyddais i ganfod fy ffordd o gwmpas a chym-deithasu gyda dwy ochr fy nghwrs ar yr un pryd.

Un peth a sylwais am yr adran Ieithyddiaeth oedd mor groesawgar oedden nhw i'r myfyrwyr newydd. Roedd arweinwyr cyfoed yr adran-nau yn frwdfrydig ac roedd yna fwy na digon o bethau i'w gwneud. Erbyn diwedd yr wythnos gyntaf roeddem yn gwybod am y Gymdeithas Ieithyddiaeth a'r hyn mae'n ei gyn-nig i fyfyrwyr.


Misoedd yn ddiweddarach, rwyf yn parhau'n rhan o'r Gymdeithas. O'i gymharu â'r hyn wnes i brofi'n bersonol ar hanner arall fy nghwrs, roedd yr adran Ieithyddiaeth yn fwy cyfeillgar a chroesawgar, ac yn gwneud y trawsnewidiad o goleg i brifysgol yn llawer llyfnach. Yn awr rwy'n ystyried y cyfeillion rwyf wedi'u gwneud yn Iaith Saesneg yn rhai o'r rhai agosaf sydd gen i yma.

Jenny Smith

### Self-limitation

(yn ymroddedig i gytseiniaid tawdd)

gan Florian Breit



I knew a lady like a diamond,  
who knew not more than nothing.  
She saw a problem in pendant,  
not just a foible something;  
she saw words much like liquid,  
vowed herself not to sanction:  
Dear, there must be no vacuum!





## Cydnabod Aelodau'r Gymdeithas Ieithyddiaeth yn Noson Wobrwy Cymdeithasau UM

Fe dderbyniodd cyn Lywydd y Gymdeithas Ieithyddiaeth Stuart Smith a'r cyn is-Lywydd Florian Breit Wobrau Arian yn Noson Wobrwy Cymdeithasau Undeb y Myfyrwyr 2012. Roedd hyn yn gam mawr nid yn unig i'r gymdeithas ond hefyd i'r pwyllgor, o ystyried nad yw'r Gymdeithas wedi cael ei chydabod yn aml mewn blynyddoedd blaenorol.



Florian yn derbyn ei Wobr Arian gan Is-Lywydd UM, Rich Gorman

Yn ystod ei gyfnod gyda'r Gymdeithas Ieithyddiaeth mae Florian wedi cymryd cyfrifoldebau bod yn Drysorydd ac yn Is-Lywydd. Yn y rôl gyntaf roedd yn gyfrifol am edrych ar ôl cyllid y gymdeithas ac fe wnaeth hefyd osod y seiliau ar gyfer ein system ddigidol newydd i'r llyfrgell. Yn ystod ei amser fel Is-Lywydd mae wedi helpu creu gwefan newydd i'r Gymdeithas, wedi hyfforddi swyddogion mewn defnyddio a gweinyddu'r drefn llyfrgell newydd ac wedi dechrau'r gyfres ddarlithiau boblogaidd "Agweddau at Iaith"; rhywbeth yr ydym ni fel cymdeithas eisiau parhau ag ef i'r dyfodol.

Dechreuodd gyrfa Stuart yn y Gym-

deithas Ieithyddiaeth fel Ysgrifennydd Cymdeithasol blwyddyn gyntaf, pan fu'n cynorthwyo i drefnu Cinio Haf hynod lwyddiannus y Gymdeithas gyda'r Ysgrifennydd Cymdeithasol Jo Sutton, cyn cymryd drosodd gan Megan Milton fel Llywydd y gymdeithas yn ystod y flwyddyn 2011/12. Gweithiodd yn galed ar wella nifer o bethau bychain sy'n bwysig o ran cydlynu'r gymdeithas a phrofodd yn adnodd

gwyh o ran ei waith yn ehangu gweithgareddau'r Gymdeithas Ieithyddiaeth, gan oruchwylio sefydlu dulliau cyfathrebu newydd fel y cylchlythyr.

Fe wnaeth y ddau ohonynt waith gwyh yn ymgyrchu dros y gymdeithas ac yn cynyddu ei chynrychiolaeth o fewn yr adran, sy'n golygu bod gan y gymdeithas bellach sedd ar y Bwrdd Astudiaethau a'i bod yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda Chadeirydd yr Adran, Vyv Evans.

Matt Jackson

## Syniadau Traethawd Hir a gefnwyd arnynt

Pan ei bod yn dod at lunio syniad ar

gyfer testun traethawd hir, weithiau gallwch fynd drwy nifer o syniadau cyn taro ar "yr un". Yn hynny o beth hoffwn rannu syniadau a gefais i ond y cefnais arnynt am un rheswm neu'r llall (fel arfer ar sail foesol). P'run bynnag, mwynhewch!

Pam bod ieithyddion mor uffernol o olygus?

- Ydy pobl ddwyieithog yn gallu dehongli rheolau yn systematig well na phobl uniaith: astudiaeth achos yn defnyddio'r gêm cardiau Mao.

- Astudiaeth niwro-ieithyddol yn cymharu pobl sydd wedi cael strôc, pobl sydd wedi cael eu strocian a "The Strokes"

- Ydy iaith yn dylanwadu ar y llwybr lleisiol?

- Ydy'r llwybr lleisiol yn dylanwadu ar iaith?

- Ydy merched yn mynd ymlaen ac ymlaen?

- Beth yw'r effeithiau ar y llwybr lleisiol + seineg yn dilyn anesthetig cyffredinol?

- Ymchwiliad i systemau seinegol pobl swil.

- Astudiaeth i gaffaeliad pragmatiaeth mewn meimiau.

- Oedd dynion ogof yn swnio fel Gwŷr Bonheddig Oes Fictoria; astudiaeth ôl-adolygol.

- Ailgyflwyno trefn gyflyrau lawn i'r iaith Saesneg; arbrawf dros nos.

- Ydy merched dal yn mynd ymlaen ac ymlaen?

- Pam bod <h> and /h/ yn cael eu cam-drin?

- Astudiaeth gydberthynol o farfau ac ieithyddiaeth.

- Am ba hyd y caf chwarae o gwm-pas gyda'r iaith Gymraeg cyn cael fy hel allan?

- A fyddai David Crystal yn mynd allan i'r dafarn pe bawn i'n gofyn iddo?

Callum Robson

## Tynnwch Merched gyda Sgwrs Ieithyddol

Gyda'r gwyliau haf hir a thywydd poeth o'n blaenau gobeithio, mae jest yn fater o amser nes bod ni ieithyddion yn canfod ein hunain yn y sefyllfa yma: mae'r parti traeth yn ei anterth a chithau'n eistedd gyda chriw mawr nad ydynt yn ieithyddion a phawb yn dod ymlaen yn wych, ond does neb i weld yn gwerthfawrogi eich dadansoddiad o ddefnydd Nick Clegg o ddelweddaeth a thrawsenwad yn ei ymrafael ieithyddol barhaus ers y trychineb ffioedd myfyrwyr y llynedd.

Os nad ydych, er gwaethaf bod yn ieithydd, eisiau diweddu'r noson ar ben eich hun, rydym ni yma yn labordy'r Gymdeithas Ieithyddiaeth yn fwy na hapus i gynorthwyo ac rydym, o dan gryn straen, wedi paratoi llinellau i dynnu sgwrs gyda merch/bachgen i chi gael eu defnyddio fel y mynnwch.

- I'd very much like "you" and "I" to become the arguments of a two place predicate.
- How about you and me sit in a syllable tree, [k-I-S-S-I-ŋ-g]?
- Hey sweets, following the Attract Closest Principle (Chomsky 1995:297) you will surely join me for a drink, right?
- Would you drop your [h] for me?
- Have you ever wondered whether there was S-O agreement across gender with the verb "to mate"?
- Hey, I'm sure you've heard of Syntax before.. but what about syntax?
- Our vibrations are gonna make some sweet harmonics!
- Right then sweets, you know about the entailments of the cooperative principle and what that implicates for us two?
- Let's do the retroflex flap until

you trill...

- Did she just shake her phonotactics at me?
- I think it's time we move on from A-bar movement, don't you sweetie?
- Say, wanna show me your input space?
- Well I didn't believe in the Immediacy of Experience Principle until now, but how are you?
- Have you ever wondered what case marking for absolutive feels like?
- Hey there. By the way, I'm a linguist...

Rydym yn dymuno'r gorau i chi gyda'r rhain, er ein bod wedi cael ein cynghori'n gyfreithlon i wrthod derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw ganlyniadau o gwbl sy'n dilyn.

Florian Breit

## Iaith Saesneg fel Myfyriwr Gradd Cydanrhydedd

Pan ddechreuais edrych o gwmpas am brifysgolion nid oeddwn yn gallu pigo un pwnc oedd yn fy siwtio. Roeddwn yn meddwl amdanaf fy hun fel rhywun oedd yn gobeithio bod yn newyddiadurwr ond roeddwn yn gwybod nad oeddwn am ddilyn cwrs gradd newyddiaduraeth lawn gan fod y rhan fwyaf ohonynt yn golygu treulio dyddiau diflas tu ôl i gamera'n ffilmio pethau na fyddai o ddi-ddordeb i mi a hefyd teimlwn y byddai hynny'n golygu esgeuluso maes academiaidd yr oedd gen i ddiddordeb ynddo: Ieithyddiaeth. Penderfynais yn y pendraw ar gwrs yng Nghymru heulog. Roeddwn wedi clywed rhai straeon negyddol cyn cychwyn ac mewn dyddiau agored o gwmpas y DU, ac er i mi gael fy rhybuddio yn erbyn gradd cydanrhydedd gan rai pobl penderfynais y byddai fy siwrnai i'n un

wahanol a bod gradd cydanrhydedd Iaith Saesneg a Newyddiaduraeth yn gweddu'n union i'r hyn oeddwn i am ei wneud.

Fy marn o ddilyn Iaith Saesneg fel gradd cydanrhydedd yw pan fo gradd cydanrhydedd yn gweddu orau i'ch llwybr yna hwnnw yn bendant yw'r ffordd ymlaen; mae'r cyfuniad i mi wedi bod yn berffaith. Ysgeintiad o ddelfrydau ac arferion newyddiadurwr o'r Ysgol Cyfryngau a threulio amser yn archwilio hanes yr iaith Saesneg a gwahanol nodweddion iaith yn Ieithyddiaeth. Fodd bynnag, nid yw hynny i ddweud nad yw bod yn fyfyrwr cydanrhydedd erioed wedi achosi problemau na phryderon i mi. Ar rai adegau ar lefel personol rwyf wedi gorfod ceisio atal dau gwrs rhag gwrthdaro, a hefyd osgoi defnyddio damcaniaeth ieithyddol i gefnogi erthygl cyfryngau. Rwyf hefyd wedi canfod bod angen i mi jyglo fy ngwaith cwrs gan fod terfynau amser yn aml yn gwrthdaro, ond mae synnwyr cryf o gynllunio amser yn helpu hynny (neu wneud popeth y noson cyn y terfyn amser sy'n achosi ychydig iawn o wrthdaro). Rwy'n ffeindio fy mod yn treulio mwy o amser yn pendroni am fy modiwlau na myfyriwr gradd anrhydedd sengl hefyd, ond dydw i ddim yn hollol siŵr os yw hynny am fod gen i ormod o ddewis neu fy mod yn rhoi gormod o feddwl i ba fodiwl sy'n disgyn i ba slot i ganiatáu i mi ddilyn gwahanol ddewisiadau.

Er gwaethaf y rhwystrau bach sydd i'w goroesi, rwy'n credu bod yn well gen i fod yn fyfyrwr cyd anrhydedd. Ddim bod gen i unrhyw brofiad fel myfyriwr gradd anrhydedd sengl wrth gwrs, er fy mod i ar brydiau'n teimlo mwy fel myfyriwr Ieithyddiaeth na myfyriwr Cyfryngau ac o siarad gyda myfyrwyr eraill rwy'n cael yr argraff

nad oes unrhyw un yn cael y teimlad o fod yn aelod llawn o'r ddwy ysgol, ond yn hytrach yn rhywun sy'n crwydro i mewn un ohonynt o'r llall.

Matt Jackson

### Gwobrwyau Cynrychiolwyr Cwrs a Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr

Ar ddechrau'r mis, roedd Neuadd PJ yn llawn o Gynrychiolwyr Cwrs, darlithwyr, bwyd, cerddoriaeth a nifer o dlysau. Cynhaliwyd y noson i ddathlu gwaith caled y Cynrychiolwyr Cwrs dros y flwyddyn ddiwethaf, yn ogystal â gwobrwyo darlithwyr ac aelodau staff eraill o amryw o wahanol adranau.

O'n hadran ni, roedd tri aelod o staff ar y rhestr fer am wahanol wobrau: Peredur Davies, Christopher Shank a Nia Jones. Roedd Christopher wedi cael ei enwebu fel Athro Newydd y Flwyddyn a Nia ar gyfer Cefnogaeth Fugeiliol Eithriadol. Roedd Peredur, ar y llaw arall, wedi'i enwebu ar gyfer dwy wobr – un ohonynt fel Goruchwyliwr Traethawd Hir y Flwyddyn.

Er na wnaethant ennill y prif wobrau yn y categorïau y cawsant eu henwebu ar eu cyfer, rydym yn falch iawn iddynt dderbyn y gydnabyddiaeth o gyrraedd y rhestr fer.

Kathryn Barlow

### Ar eich marciau, yn barod, graddiwch!

Os ydych yn un o'r myfyrwyr hynny sy'n graddio eleni, yna'n gyntaf oll llongyfarchiadau! Nawr mae'n siŵr ar ryw bwynt eich bod wedi pendroni ynghylch beth i'w wneud erbyn pryd a sut i wneud copïau o wybodaeth o'ch cyfrifon e-byst a'ch gyriant M. Er mwyn eich helpu yn hynny o beth rydym

wedi ceisio casglu rhywfaint o wybodaeth ar eich cyfer chi am beth sy'n mynd i ddiwydd i'ch cyfrifon a'ch breintiau a phryd, a'r dyddiadau pwysig i'w cofio.

Y peth pwysicaf i gychwyn: Cynhelir y seremoni raddio ar gyfer Ieithyddiaeth ar 17 Gorffennaf am 3pm yn Neuadd PJ. Mae'r dyddiad cofrestru fodd bynnag bellach wedi pasio felly os nad ydych eisoes wedi cofrestru eisoes byddwch yn graddio in absentia mwy na thebyg. Ar gyfer y seremoni byddwch angen llogi gŵn gan Ede a Ravenscroft ar y we, a hynny ymhell o flaen llaw. Gwnewch yn siŵr bod gennych dâp mesur wrth law pan fyddwch yn gwneud hyn gan y gofynnir i chi am wahanol fesuriadau fel cylchedd eich pen er mwyn sicrhau fod popeth yn ffitio! Os ydych am ddod â gwesteion gyda chi i Neuadd PJ bydd angen i chi brynu tocynnau iddyn nhw (mwyafswm o 2 ar gyfer pob person) drwy wefan <http://bangor.ac.uk/graduation>, a fydd yn costio £12 y tocyn. Os na fyddwch yn gwneud hynny fe fydd yna ddarlithfa ble yr arddangosir yr holl seremoni ar deledu cylch cyfyng ble gall gymaint o westeion ag y dymunwch wylïo'r holl beth am ddim.

Byddwch yn gallu parhau i fynd i'r llyfrgell ac ymgynghori â llyfrau a chylchgronau yno ond mae hawliau benthyc israddegion wedi dod i ben ers 1 Mehefin felly ni chewch fynediad at gylchgronau academaidd ar-lein na benthyc llyfrau. 1 Mehefin hefyd oedd y dyddiad i'ch statws swyddogol fel myfyriwr ddirwyn i ben fel israddegion, er bod y sefyllfa'n wahanol i fyfyrwyr ôl-radd.

Byddwch yn gallu cael mynediad at BangorPortal a Blackboard tan 13 Gorffennaf, sef y dyddiad pan

fydd Cofnodion Myfyrwyr yn cau cyfrifon myfyrwyr sy'n graddio. Dilynir hynny'n fuan wedyn gyda diweddu eich cyfrif e-bost a'ch mynediad at yriant M, felly os oes gennych unrhyw e-byst yr hof-fech eu cadw tu hwnt i'r dyddiad hwnnw neu ddata ar gyfrifiaduron y brifysgol mae'n well i chi wneud copïau wrth gefn cyn hynny.

Mae yna gyfarwyddyd ar wefan Gwasanaethau TG ar <http://bit.ly/BangorBackup> sy'n esbonio sut i drosglwyddo e-byst Bangor i'ch cyfrifiadur eich hun gan ddefnyddio naill ai Thunderbird neu Outlook. I wneud copi wrth gefn o ddata o'ch gyriant M:, gallwch naill ai ddefnyddio 'cof bach' eich hun neu ddefnyddio'r gwasanaeth llosgi CDs a ddarperir gan Wasanaethau TG, a fydd am £2.50 yn eich darparu â CD neu DVD a fydd yn cynnwys yr holl ffeiliau rydych wedi'u cadw ar gyfrifiaduron prifysgol. Mae'r gwasanaeth ar gael drwy anfon e-bost at [cd@bangor.ac.uk](mailto:cd@bangor.ac.uk).

Nodwch fod y brifysgol hefyd yn darparu gwasanaeth o'r enw 'E-bost am Oes' sy'n sylfaenol yn gyfeiriad e-bost Bangor am ddim a fydd yn cael ei yrru ymlaen i gyfrif e-bost arall, er enghraifft cyfrif Hotmail neu Gmail. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain ar ffurf [enw.cyfenw@univ.bangor.ac.uk](mailto:enw.cyfenw@univ.bangor.ac.uk) a gallwch gofrestruamunynyfanyma: <http://bangor.ac.uk/alumni/email>. Am ffordd ragorol i amlygu eich gorffennol ym Mangor ac aros mewn cysylltiad gyda'r ffrindiau a wnaethoch yma!

Florian Breit

**Cadw mewn cysylltiad â'r  
Gymdeithas leithyddiaeth**

Mae gennym wefan ar  
<http://bangorlinguists.org>.

Mae gennym hefyd dudalen Face-  
book (tudalen newydd!) a gallwch  
ein trydar ar Twitter:

<http://on.fb.me/BangorLinguists>.

<http://bit.ly/BLStweet> (Saesneg)

<http://bit.ly/CIBtweet> (Cymraeg)

Mae yna grwpiau blwyddyn ar Fa-  
cebook, gyda'r enw "Linguistics &  
English Language 'XX'", ble mae  
"XX" yn dynodi'r flwyddyn rad-  
dio (e.e. '12 i'r rheiny sydd new-  
ydd orffen eu trydedd flwyddyn).  
Gwnewch yn siŵr o ymaelodi!

**Cyfranwyr**

*Prif Olygydd*

Kathryn Barlow

*Bwrdd Golygyddol*

Florian Breit

Matt Jackson

Roseanne Orr

*Cyfranwyr*

Callum Robson

Jenny Smith